

**AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL  
(Cyfarfod Cyyfredinol Blynyddol)**

**14 Mehefin 2017**

Yn bresennol: Y Cynghorydd P Baker, y Cynghorydd Mrs D Clements, y Cynghorydd K Doolin, y Cynghorydd P Harries, Mrs G Hayward, Dr R Heath-Davies, Mrs J James, y Cynghorydd M James, y Cynghorydd PJ Morgan, y Cynghorydd R Owens, Mr AE Sangster, y Cynghorydd A Wilcox, y Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00a.m. – 10.30a.m.)

**1. Croeso a diolch**

Estynnodd y Cynghorydd M James, a oedd yn ymddeol o'r Gadair, groeso cynnes i bawb i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, ac yn enwedig yr Aelodau hynny a benodwyd yn ddiweddar i'r Awdurdod o Gyngor Sir Penfro a Llywodraeth Cymru. Dywedodd wrthynt eu bod yn ymuno â rhywbeth arbennig iawn; nid dim ond i Sir Benfro, ond hefyd i Gymru a'r Deyrnas Unedig. Gobeithiai y byddent yn mwynhau eu cyfnod gyda'r Awdurdod.

Aeth rhagddo i ddiolch i'r holl staff yn Llanion yn ogystal â Chanolfannau'r Awdurdod am wneud ei waith fel Cadeirydd yr Awdurdod mor hawdd. Roedd bob amser yn braf gweithio gyda staff lle'r oedd modd cael ychydig o hwyl a hiwmor, ac roedd hynny'n wir am staff Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Roedd hefyd yn awyddus i ddiolch i'r Aelodau; roedd yn gwerthfawogi eu holl gyfraniadau a'u cefnogaeth yn ystod y pedair blynedd flaenorol. Roedd yn grediniol fod yr hen ddywediad am amser yn hedfan pan fyddwch chi'n mwynhau eich hun yn hollol wir yn ei achos ef.

Yn olaf, diolchodd i'r tîm Gwasanaethau Democrataidd a'r Prif Weithredwr am ofalu amdano yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd.

**2. Ethol Cadeirydd**

Dywedodd y Cynghorydd M James mai un enwebiad a ddaeth i law ar gyfer swydd y Cadeirydd, ac roedd yn bleser o'r mwyaf ganddo enwebu Mrs G Hayward ar gyfer y swydd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ethol Mrs G Hayward yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

*[Daeth Mrs G Hayward i'r Gadair a bu'n llywyddu am weddill y cyfarfod.]*

**3. Diolchiadau'r Cadeirydd**



Diolchodd Mrs G Hayward i'r Aelodau am ei hethol yn Gadeirydd sefydliad a oedd yn ei barn hi yn un pwysig dros ben.

Aeth rhagddi i ddiolch i'r Cadeirydd a oedd yn ymddeol, sef y Cynghorydd M James, am fod yn Gadeirydd ardderchog yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Roedd wedi arddel buddiannau a phwysigwydd y Parc Cenedlaethol mewn cyfnodau anodd dros ben. Roedd wedi mynychu cyfarfodydd di-ri ac wedi mynegi ei farn yn glir a gyda hwyl a hiwmor.

Roedd Mrs Hayward yn sicr y byddai bwllch ar ôl y Cynghorydd James yn y teulu o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ond gwyddai y byddai'n parhau i weithio'n ddi-flino er budd y Parciau Cenedlaethol.

Hefyd, estynnodd Mrs Hayward groeso i'r Aelodau newydd a benodwyd yn ddiweddar i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro. Gobeithiai y byddent yn mwynhau bod yn Aelodau gymaint ag y gwnaeth hi, gan ei fod yn fraint fawr gweithio gyda staff a oedd yn ymroddedig i arddel dibenion y Parc Cenedlaethol.

#### **4. Ethol Is-gadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd mai un enwebiad a ddaeth i law ar gyfer swydd yr Is-gadeirydd.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** ethol Mr AE Sangster yn Is-gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

#### **5. Diolchiadau'r Is-gadeirydd**

Dywedodd Mr AE Sangster ei bod yn fraint ganddo gael ei ethol yn Is-gadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Roedd yn edrych ymlaen at gefnogi'r Cadeirydd yn ystod ei thymor yn y swydd.

#### **6. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol oddi wrth Mr A Archer, y Cynghorydd M Evans, Ms C Gwyther a'r Cynghorydd P Kidney.

#### **7. Datgelu buddiant**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

#### **8. Aelodaeth o Bwyllgorau a Sefydliadau Allanol**

Achubodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd ar y cyfle i longyfarch Mrs Hayward ar fod yr Aelod benywaidd cyntaf i gadeirio Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Hefyd, dyma'r tro cyntaf i ddau Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru gael eu hethol yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd yr un pryd. Roedd yn edrych ymlaen at gydweithio â hwy yn ystod eu cyfnod yn y swydd.



Diolchodd hefyd i'r Cadeirydd blaenorol, y Cynghorydd M James; roedd wedi gwneud ei waith yn urddasol ac yn hwyliog ac wedi ysgwyddo mantell ei swydd â balchder. Roedd bob amser yn barod i siarad â'r staff a bu'n bleser mawr gweithio gydag ef dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Gan droi at yr adroddiad gerbron yr Aelodau, dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd ei bod yn arferiad yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i adolygu aelodaeth Pwyllgorau a Grwpiau'r Awdurdod, ynghyd â chynrychiolaeth yr Awdurdod ar gyff allanol. Roedd rhai Aelodau wedi mynegi diddordeb mewn gwasanaethu ar amryfal Bwyllgorau/Grwpiau ymlaen llaw ac roedd y rheini i'w gweld yn yr adroddiad, ynghyd â'r lleoedd gwag a oedd ar gael. Byddai'r Aelodau hynny a wasanaethodd ar Bwyllgorau'n flaenorol yn parhau oni bai eu bod yn dweud fel arall yn y cyfarfod.

Hefyd, dywedodd wrth yr Aelodau y byddai cyfansoddiad y Pwyllgor Archwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau yn cael ei gadarnhau yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod pan fyddai enwau Cadeiryddion y Pwyllgorau a'u haelodaeth, erbyn hynny'n hysbys.

#### **PENDERFYNWYD:**

- (a) cytuno ar yr aelodaeth a ganlyn ar Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ei Bwyllgorau a'i Grwpiau:

#### **AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL**

Pob Aelod

#### **Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU**

Pob Aelod

#### **Y PWYLLGOR ADOLYGU GWASANAETHAU ARCHWILIO A CHORFFORAETHOL (6 CSP, 3 LIC)**

Y Cynghorydd P Baker	Mr A Archer
Y Cynghorydd D Clements	Mrs G Hayward
Y Cynghorydd M James	Dr R Heath-Davies
Y Cynghorydd P Kidney	
Y Cynghorydd R Owens	
Y Cynghorydd M Williams	

#### **Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDIADAU (6 CSP, 3 LIC))**

Y Cynghorydd ML Evans	Ms C Gwyther
Y Cynghorydd P Harries	Mrs J James
Y Cynghorydd K Doolin	Mr AE Sangster
Y Cynghorydd PJ Morgan	



Y Cynghorydd A Wilcox  
Y Cynghorydd S Yelland

**Y PWYLLGOR PERSONÉL (6 CSP, 3 LIC)**

Y Cynghorydd ML Evans Mrs G Hayward  
Y Cynghorydd PJ Morgan Dr R Heath-Davies  
Y Cynghorydd D Clements Mrs J James  
Y Cynghorydd M James  
Y Cynghorydd A Wilcox  
Y Cynghorydd S Yelland

**FFORWM GWEITHWYR (4 CSP, 2 LIC)**

Y Cynghorydd P Harries Mr A Archer  
Y Cynghorydd P Kidney Ms C Gwyther  
Y Cynghorydd R Owens  
Y Cynghorydd M Williams

**GRŴP GWELLIANT PARHAUS (4 Aelod)**

Cadeirydd, Awdurdod Parc Cenedlaethol  
Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol  
Cadeirydd, Pwyllgor Adolygu Gweithredol  
Cadeirydd, Pwyllgor Rheoli Datblygu

**GWEITHGOR Y STRATEGAETH DATBLYGU AELODAU (3 Aelod)**

Mr A Archer Ms C Gwyther  
Y Cynghorydd M James

**Y PWYLLGOR SAFONAU (2 CSP; 1 LIC ynghyd â thri Aelod Annibynnol)**

Y Cynghorydd PJ Morgan Mr A Archer Mr R Barrett-Evans  
Y Cynghorydd R Owens Mrs V Tomlinson  
Mrs J Wainwright

**PWYLLGOR Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY (4 CSP, 2 LIC)**

Y Cynghorydd K Doolin Mrs J James  
Y Cynghorydd M James Mr AE Sangster  
Y Cynghorydd M Williams  
Y Cynghorydd S Yelland

**PANEL PENODI Y PWYLLGOR SAFONAU**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Awdurdod  
Cadeirydd y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol  
Y Cynghorydd M Williams  
Un Aelod Ileyg



(b) cymeradwyo'r gynrychiolaeth a ganlyn ar gyrff allanol ar gyfer 2017/18:

**PWYLLGOR GWEITHREDOL PARCIAU CENEDLAETHOL Y DU**  
Cadeirydd yr Awdurdod (*Dirprwy: Is-gadeirydd yr Awdurdod*)

**PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU**  
Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Awdurdod

**CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU**

**Y CYNGOR**

Y Cynghorydd M James (*Dirprwy: Cadeirydd yr Awdurdod*)

**PWYLLGOR CYD-LYNU**

Cadeirydd, Parciau Cenedlaethol Cymru

**CYD-GYNGOR CYMRU**

Y Cynghorydd M Williams (*Dirprwy: Y Cynghorydd R Owens*)

**YMGYRCH Y PARCIAU CENEDLAETHOL** (*Un Aelod*)

Mrs G Hayward

**CYNGHRAIR Y PARCIAU CENEDLAETHOL** (*Un Aelod*)

Mr AE Sangster

**GRŴP YMGYNGHORI / GRŴP ARFORDIR BAE ABERTEIFI**

Y Cynghorydd M James

Y Cynghorydd P Harries  
(*Dirprwy*)

**PWYLLGOR YMGYNGHORI AWDURDOD PORTHLADD**

**ABERDAUGLEDDAU** (*Un Aelod a Dirprwy*)

Mr AE Sangster

Y Cynghorydd S Yelland  
(*Dirprwy*)

**FFORWM MYNEDIAD LLEOL SIR BENFRO** (*Un Aelod*)

Y Cynghorydd P Harries

**GWEITHGOR AGREGAU RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU -**

**FFORWM AELODAU'R DATGANIAD TECHNEGOL RHANBARTHOL**

(*Un Aelod a Dirprwy*)

Mr A Archer

Y Cynghorydd M James (*Dirprwy*)

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL COLEG SIR BENFRO**

Y Cynghorydd M James



- (c) cadarnhau cyfansoddiad y Pwyllgor Archwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau yn y cyfarfod nesaf pan fyddai holl Gadeiryddion/Is-gadeiryddion yr amryfal Bwyllgorau wedi cael eu hethol.

